Eich cyf/Your ref: text (DCC Normal)
Ein cyf/Our ref: Parents&Carers 01.09.25
Dvddiad/Date: September 1st, 2025
Rhif Uniongyrchol/Direct dial: 01824 708020

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| Annwyl Rieni a Gofalwyr | Dear Parents and Carers, |
|---|---|
| **<u>Blwyddyn Ysgol Newydd – Gweithio gyda'n Gilydd i gefnogi presenoldeb a dysgu</u>** | **<u>A New School Year – Working Together to Support Attendance and Learning</u>** |
| Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd, rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn i atgyfnerthu pwysigrwydd presenoldeb ysgol rheolaidd a rhannu rhai diweddariadau allweddol gan Gyngor Sir Ddinbych. | As we begin the new academic year, I want to take this opportunity to reinforce the importance of regular school attendance and share some key updates from Denbighshire County Council. |
| Mae data diweddar a gyhoeddwyd wedi dangos cysylltiad pryderus rhwng colli dyddiau cyntaf yr ysgol ac absenoldeb parhaus trwy gydol y flwyddyn. Mae adroddiad wedi nodi yn 2024, bod mwy na hanner y disgyblion a gollodd ran o'r wythnos gyntaf yn dod yn absennol yn barhaus, o'i gymharu â dim ond 14% o'r rhai a fynychodd yn llawn. Mae hyn yn amlygu pa mor hanfodol yw hi i blant ddechrau'r flwyddyn ysgol ar y droed iawn. | Recent published data has shown a concerning link between missing the first few days of school and ongoing absence throughout the year. A report states that in 2024, more than half of pupils who missed part of the first week became persistently absent, compared to just 14% of those who attended fully. This highlights how crucial it is for children to start the school year on the right foot. |
| Rydyn ni'n gwybod bod pob dydd yn yr ysgol yn cyfrif. Gall colli hyd yn oed ychydig ddyddiau greu bylchau mewn dysgu sy'n anodd eu hadfer, gan effeithio ar gynnydd academaidd a datblygiad cymdeithasol. Dyna pam mae ysgolion ledled Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i gefnogi presenoldeb da o'r diwrnod cyntaf. | We know that every day in school counts. Missing even a few days can create gaps in learning that are difficult to recover, affecting both academic progress and social development. That's why schools across Denbighshire are working closely with families to support good attendance from day one. |
| **Gwyliau Tymor ac Absenoldebau Anawdurdodedig** | **<u>Term-Time Holidays and Unauthorised Absences</u>** |
| Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig, gan gynnwys gwyliau a gymerir yn ystod y tymor heb ganiatâd. Bydd Hysbysiadau Cosb Benodol (HCB) yn cael eu cyhoeddi lle bo angen i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau cyfreithiol. | Denbighshire County Council is taking firm action to address unauthorised absences, including holidays taken during term time without permission. Fixed Penalty Notices (FPNs) will be issued where necessary to ensure compliance with legal responsibilities. |
| Pwyntiau allweddol i'w nodi: | Key points to note: |
| • Mae HCB yn cael eu cyhoeddi o dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013. | • FPNs are issued under The Education (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2013.<br>• A fine of £60 per child, per parent applies if paid within 21 days, rising to £120 if paid within 28 days.<br>• Non-payment may result in prosecution, with fines reaching up to £1600 in some |

Cyngor Sir Rhuthun, PO Box 62
Rhuthun, LL15 9AZ
01824 708020
Addysg@sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council, PO Box 62
Ruthin, LL15 9AZ
01824 708020
Education@sirddinbych.gov.uk

- Mae dirwy o £60 y plentyn, fesul rhiant yn berthnasol os caiff ei dalu o fewn 21 diwrnod, gan godi i £120 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod.
- Gall peidio â thalu arwain at erlyniad, gyda dirwyon yn cyrraedd hyd at £1600 mewn rhai achosion am fethu i dalu'r ddirwy gyntaf o £60.
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff absenoldebau eu hawdurdodi, asesir rhain yn unigol gan y pennaeth.

Rydym yn deall bod teuluoedd yn gwerthfawrogi amser o ansawdd gyda'i gilydd, ond gall tynnu plant o'r ysgol yn ystod y tymor gael effaith sylweddol ar eu haddysg. Nid yw hysbysiadau cosb benodol yn cael eu cyhoeddi'n ysgafn, ond rydym i gyd yn rhannu dyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn Sir Ddinbych yn cael y cyfle gorau posibl i lwyddo yn yr ysgol.

**Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd**

Rydym yn annog pob teulu i flaenoriaethu addysg wrth gynllunio teithiau a gwyliau. Cyfeiriwch at ddyddiadau tymor yr ysgol a siaradwch â staff cyn gofyn am amser i ffwrdd yn ystod y flwyddyn academaidd.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os oes angen cymorth arnoch gyda phresenoldeb, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus i'n helpu i roi'r dechrau gorau posibl i'r flwyddyn i bob plentyn.

Yn gywir

*G.W.Davies*

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg / Head of Education

cases for non -payment of the initial fine of £ 60.

- Absences are only authorised in exceptional circumstances, assessed individually by the headteacher.

We understand that families value quality time together, but removing children from school during term time can have a significant impact on their education. Fixed penalty notices are not issued lightly, but we all share a duty to ensure every child in Denbighshire has the best possible chance to succeed in school.

**Let's Work Together**

We encourage all families to prioritise education when planning trips and holidays. Please refer to the school's term dates and speak with staff before requesting time off during the academic year.

If you have any concerns or need support with attendance, please don't hesitate to contact the school.

Thank you for your continued support in helping us give every child the best possible start to the year.

Yours sincerely,

*G.W.Davies*

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg / Head of Education

Cyngor Sir Rhuthun, PO Box 62
Rhuthun, LL15 9AZ
01824 708020
Addysg@sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council, PO Box 62
Ruthin, LL15 9AZ
01824 708020
Education@sirddinbych.gov.uk